

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 3 Rhif 12

Yn rhad ac am ddim

Mawrth 2023

Grŵpiau Gŵyr



Syniad Bach – Canlyniad Mawr

gan Rob Evans

Mae'r caffi yng Nghwm Ivy wedi bod yna am rai blynyddoedd erbyn hyn a llawer o bobl yn galw i mewn i gael 'top-up' o egni cyn cerdded i lawr i waelod y cwm i fwynhau cerdded yn yr awyr iach. Eraill yn galw i mewn ar y ffordd yn ôl at y ceir ar ôl daith egniol i gael y nerth i gerdded y darn olaf yn ôl at y ceir. Wedyn mae pobl farus yn methu cerdded heibio, y tentasiwn o baned a bara brith yn ormod iddyn nhw. Ond nid y bwyd yw'r unig reswm i alw mewn, mae gardd hyfryd i ymlacio ynddi a golygfeydd ysblennydd. Pwy fyddai eisiau mwy? Ond mae 'na fwy! Yn enwedig ar ddydd Iau achos ar ddydd Iau mae pobl frwdfrydig yn mynd yna i siarad Cymraeg! Yn wir? Ia, yn wir.

Am ormod o amser mae'r Gymru wedi bod yn rhy barchus i siarad Cymraeg o fewn clyw clustiau uniaith Saesneg ond yn y caffi yma mae

posterï o gwmpas yn esbonio sut i archebu yn Gymraeg. Brensiach annwyl, beth mae'r bobl uniaith Saesneg yn feddwl am hynny? Credwch neu beidio maen nhw wrth eu boddau.

A beth wnaeth sbarduno'r syniad o wneud y Gymraeg yn amlwg?

Wel, pan wnaeth y caffi ail agor ar ôl i Siân, y perchennog, deffro o'i gaeaf gysgu hir ac ar ôl sgwrsio efo'r ferch oedd wedi dechrau gweithio yna, wnaeth hi ofyn "Manon, dach chi'n siarad Cymraeg?" a Manon yn cadarnhau'n frwdfrydig "Ydw Tad, pob gair!" Chi'n gweld mae Manon yn dod, naci siŵr, mae hi'n dŵad o'r gogledd. Dim cweit sir Fôn, wrth gwrs ond mae Dolgellau yn sicr yn y gogledd!

Wrth siarad efo'i gilydd yn Gymraeg yn y caffi roedden nhw'n sylweddoli faint o siaradwyr Cymraeg oedd o gwmpas a dechreuon nhw siarad Cymraeg efo cwsmeriaid. Teimlad braf iawn. Mae Vince, tad Siân yn siarad Cymraeg hefyd a fynta yn mynychu'r caffi yn aml a dyma'r

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

cynhwysyn olaf yn cyrraedd i wneud y rysâit yn gyflawn - Neil. Gwyddel o Cork yw Neil ac yn frwdfrydig dros yr iaith Gymraeg.

Yn sydyn roedden nhw'n 'cwcio ar gas' fel maen nhw'n dweud! Yn fuan iawn roedd grŵp o ddysgwyr yn casglu yna bob dydd Iau i sgwrsio. Dyma ddechreuad grŵp 'Shw Mae Dydd Iau'.

A dyna fi yn Abertawe, dim ond ychydig o filltiroedd i ffwrdd ac yn gwybod dim byd am hyn! Ond dim am yn hir!

Os dach chi'n cofio roedd yr haf llynedd yn boeth ofnadwy ond roedd aelodau Cymdeithas Edward Llwyd, pobl ddewr, ddi-ofn yn dal i fynd allan i gerdded yn yr awyr agored. Roedd taith wedi cael ei drefnu i gerdded o Gwm Ivy, i lawr at y traeth, trwy Broughton, heibio Burry Holms ac yn ôl at y ceir. Roedd hi'n boeth ofnadwy a phawb wedi taenu eu hunain efo eli haul cryf, roedd hynny'n cadw'r croen yn ddiogel ond doedd dim ffordd osgoi'r gwres. Roedd hi'n ddigon poeth, hyd yn oed, i ni gyd ysu am hufen iâ ar ddiwedd y daith a ble oedd y lle gorau i fynd? Ia, Caffi Cwm Ivy.

A dyna pryd nes i ddysgu am y grŵp newydd yma. Wel, roeddwn i yna'r dydd Iau canlynol ac, heblaw am wythnos yr Eisteddfod, dw i ddim wedi methu'r un cyfarfod ers hynny.

Mae dysgwyr profiadol yna a dysgwyr newydd a phawb yn cael croeso. Dw i wedi gweld dysgwyr yn dod yma am y tro cyntaf, braidd yn dawel, braidd yn swil a dw i wedi gweld nhw'n tyfu mewn hyder ac yn cloncian ymlaen heb ofn.

A beth dan ni angen i gryfhau'r iaith Gymraeg? Mwy o siaradwyr Cymraeg, brwdfrydig, dyna beth! A dyma nhw, mewn caffi ar Gŵyr yn cloncian yn hapus ac yn frwdfrydig ac yn aros am y cyfle i fod yn rhan o'r gymuned Gymraeg. Felly cofiwch! Pob dydd Iau, Caffi Cwm Ivy, Llanmadoc am 11.00, croeso mawr i chi!

Hir oes i'r iaith!

O'r 1af o fis Mawrth mi fydd y grŵp yn cyfarfod yng Nghaffi Cwm Ivy unwaith eto, ond na fydd y caffi yn agored i'r cyhoedd tan Ebrill 1af.

Clwb Coffi Newton

gan Vanessa Bassett



"Beth ydych chi wedi gwneud yn y Gymraeg yr wythnos yma?" dyma gwestiwn cyntaf ein tiwtor pob nos Fercher. Yr atebion yw yn aml, Duolingo, S4C, neu dim byd. Er bod rhai pobol yn siarad Cymraeg yn y gwaith, does dim llawer o gyfle i siarad a chymdeithasu.

Yn Newton mae gennym siop coffi yn Neuadd y Gymuned ar bwys eglwys St Peter. Felly penderfynon ni i wahodd pobol i ddod i'r caffi i ymarfer siarad Cymraeg ar bob Ddydd Mercher rhwng 12.30 a 2.30. Ar ddydd Mercher y barrista yn y caffi yw Cheryl Rees ac mae hi'n siarad Cymraeg. Felly nes i roi poster ar wefan y caffi i groesawu pobol i'n cyfarfod cyntaf diwedd mis Ionawr.

Yn ffodus welais i neges gan Rob Evans yn y Wennol yn gofyn am wybodaeth am unrhyw cyfarfod. Anfonais e-bost iddo fe ac atebodd yn syth i ddweud y byddai'n hapus i ddod.

Y tro cyntaf, doeddwn ni ddim yn gwybod os bydd unrhyw un yn dod. Ond daeth deg o bobol, yn cynnwys Siân Lloyd. Cawson ni deisen siocled a chael hwyl yn clywed storïau diddorol Siân am ei bywyd fel 'Weather girl'.

Erbyn hyn mae'r clwb coffi yn mynd o nerth i nerth. Ddoe, dim ond y bedwaredd cyfarfod, roedd mwy na 20 yno yn siarad Cymraeg; dysgwyr o bob lefel a Chymry Cymraeg. Doedden ni ddim yn gwybod bod cymaint o angen yn ein hardal i gael y cyfle i siarad.

Mae hi mor hyfryd i weld pobol yn cymdeithasu ac yn siarad yr iaith. Diolch i Rob am ei gefnogaeth. Mae croeso mawr i unrhyw un yn Abertawe i ymuno gyda ni yn Newton.

Diolch yn fawr am y diolch, ond i Vanessa dyle'r diolch fod achos hi chafodd yr
2 *ysbrydoliaeth i ddechrau'r grŵp. Mae'n*

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

anhygoel sut mae'r grŵp yma wedi tyfu mewn cyn lleied o amser - dros ugain erbyn y bumed cyfarfod. A phawb yn sgwrsio fel hen ffrindiau. Yn amlwg mae angen mawr am grwpiau fel hyn, grwpiau sydd yn effeithiol dros ben i godi hyder dysgwyr a datblygu eu Cymraeg. Diolch Vanessa.

Hir oes i'r iaith!

Dysgwyr Southgate



Mae'n wir i ddweud na fyddai'r Wennol yn bodoli heb gefnogaeth dysgwyr Southgate. Mae'n wir i ddweud mai fi gafodd y syniad o ddechrau cylchgrawn i ddysgwyr ond mae pobl yn cael syniadau trwy'r amser ond does dim cymaint yn cael ei wireddu. Mae problemau'n codi a rhai ohonyn nhw'n rhy fawr i ddatrys.

Y broblem amlwg pan dach chi'n trio dechrau cylchgrawn yw cael rhywun, neu rywrai i ysgrifennu straeon. Byddai neb yn cael ei blesio efo cylchgrawn o dudalennau gwag! Ond doedd dim problem. Cysylltais â'r grŵp a hefyd dysgwyr sydd yn aelodau o Gymdeithas Edward Llwyd a dach chi'n gwybod beth? Fel y 'Man from del Monte' yr ateb oedd 'yes'. Iawn, efallai dydych chi ddim wedi clywed am 'the Man from del Monte' ond does dim ond rhaid i chi ei gwnglo a byddai popeth yn glir.

Cysylltais â phawb hanner ffordd trwy fis Mawrth 2020 ac erbyn y 1af o fis Ebrill roedd y Wennol gyntaf yn hedfan. A dyma ni, erbyn i chi gael hyn, wedi cyrraedd diwedd y drydedd flwyddyn a nifer y tudalennau'n cyrraedd 20 ac weithiau mwy.

Ond sut ddechreuodd grŵp Southgate? Wel, grŵp o ddau i ddechrau, Phil Jones a Martin Jones wedi penderfynu cyfarfod yn y caffi lleol er

mwyn parhau i siarad Cymraeg ar ôl i'r cwrs ddod i ben. Wrth fod nhw'n siarad Cymraeg mewn lle cyhoeddus roedd pobl o'u cwmpas nhw yn clywed, rhai ohonyn nhw'n siaradwyr Cymraeg. Yn raddol tyfodd y grŵp a chyn hir roedd yr aelodau'n cael gwahoddiad i ymuno â Chymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt.

A dyna ni, dysgwyr wedi darganfod ffordd o'r dosbarth, trwy'r grŵp ac i'r gymuned Gymraeg.

Hyn i gyd yn dangos bod y sustem yn gweithio, neu o leiaf yn gallu gweithio petasai bawb yn gweithio efo'i gilydd.

Wrth gwrs roedd grŵp Southgate yn ffodus bod Martin a Phil wedi dechrau siarad Cymraeg efo'i gilydd mewn lle cyhoeddus ac wedi creu llwybr clir i'r gymuned Cymraeg.

Mae'r grŵp yn cyfarfod yng Nghaffi'r Tri Chlogwyn yn Southgate am 2.00 pob dydd Mawrth ac mi fydd croeso mawr i chi ymuno â nhw.

Hir oes i'r iaith!

Phil Jones

Dw i newydd orffen ysgrifennu am hanes y grŵp yn Southgate ac wedi troi at fy negeseuon ebost a dysgu bod Phil Jones newydd farw. Mi fydd teyrngedd llawn iddo yn y rhifyn nesaf o'r Wennol. os dach chi wedi darllen yr erthygl am grŵp Southgate byddech chi yn cofio mai fo a Martin Jones oedd yn gyfrifol am i'r grŵp ffurfio.

Erbyn hyn mae grwpiau newydd yn dechrau trwy'r amser ac yn rhoi hyder i ddysgwyr i siarad Cymraeg. Tybed a fyddem wedi gweld gymaint o dyfiant os nad oedd grŵp Southgate wedi cael ei ffurfio?

Mi ydyn ni wedi bod yn teimlo ei golled am sbel erbyn hyn, ei bersonoliaeth a'i wên llydan.

Heddwch i'w lwch

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Adrian Pugh

Mis Medi diwethaf aethon ni i Ffrainc ar wyliau. Arhoson ni yn y Dordogne am wythnos gan ymweld ag ogofâu Gouffre de Padirac. Aethom i mewn i'r ogofâu gan fynd i lawr grisiau am tua chan metr. Yna aethom ar gwch fferi bach (deg o bobl) ar hyd afon gul danddaearol am bum can metr.

Daethom allan o'r cwch fferi a cherdded o gwmpas yr ogofâu am ryw awr cyn dal y cwch fferi yn ôl i'r fynedfa. Roedd yr ogofâu yn wych ond oherwydd fy mod yn Gymro dwi'n meddwl bod ogofâu Dan Yr Ogaf yn well.

Chris Roberts

Chris dw i. Dw i'n byw yn Rhydychen ers tri deg tair blynedd, mewn fflat efo fy ngwraig, a dw i'n gweithio mewn ysbyty iechyd meddwl fel cynorthwydd gofal iechyd. Dw i'n mwynhau dysgu ieithoedd, darllen, cerdded a cherddoriaeth. Mi wnes i dyfu i fyny yng Nghaint ond mi ges i fy ngeni ym Mangor achos oedd fy rhieni'n byw yno ar y pryd ar ôl iddyn nhw fynychu'r Brifysgol.

Roedd fy mam yn hoff iawn o ogledd-orllewin Cymru ers iddi arfer aros mewn hen dollty ar Ynys Môn efo'i rhieni hi ar wyliau pan oedd hi'n ifanc. Symudodd fy nheulu i ffwrdd o Gymru pan o'n i ddim ond blwydd oed ond er waethaf hynny, oeddem ni'n ymweld â Bangor yn aml yn ystod fy mhentyndod a dw i wastad wedi teimlo cysylltiad eithaf cryf efo'r wlad a'r iaith. Ar ôl i fy nhad ymddeol symudodd fy rhieni yn ôl i Gymru a rwan mae fy mam yn bwy ym Miwmares ar Ynys Môn.

Rebecca Burn

Rebecca ydw i. Dw i'n dod o Swydd Amwythig yn wreiddiol, felly dim yn rhy bell o Gymru o gwbl. Dw i'n byw mewn pentre' bach o'r enw Pennant sydd wedi'i leoli rhwng Machynlleth a

Llanidloes. Yn byw yng nghanolbarth Cymru, dw i wedi arfer clywed pobl yn defnyddio geiriau Cymraeg gogleddol a deheuol, felly dw i wedi dysgu tipyn bach o'r ddau ohonyn nhw hefyd!

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg rwan ers pedair blynedd ac wedi gwneud cymaint o ffrindiau trwy ddysgu'r iaith. Dw i'n dwlu arni! Dw i ddim yn gweithio mwyach ers i fy ngŵr a finnau gorfod gofalu am fy nhad. Mae o'n wyth deg saith oed ac, yn drist, mae gynno fo ddementia. Does dim plant gen i ond mae gen i ddau gi. Mae'r un o'r enw Teddy a'r llall, Amber. Mae'r cŵn yn bwysig iawn yn fy mywyd!

Earl (o Melbourne, Awstralia)

Earl dw i. Dw i'n byw efo fy ngwraig, Jo, yn Box Hill North, maestref o Melbourne, Awstralia. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg yn nosbarthiadau Cymraeg Melbourne, bob hyn a hyn, am tua phymtheg mlynedd. Anna, Aled, Ceri a Robert ydy'r tiwtoriaid.

Dw i'n dysgu Cymraeg achos daeth fy nain o Gymru a dw i wastad wedi cael diddordeb mewn chwedloniaeth a barddoniaeth Geltaidd. Bardd cyhoeddedig ac awdur dw i.

Dw i wedi ymweld â Chymru teirgwaith i wneud gwaith ymchwil ar gyfer un o fy nofelau. Dw i'n teimlo'n gartrefol yno a phan dw i ddim yno, dw i'n dioddef o hiraeth. Dw i'n gobeithio dychwelyd yn y dyfodol agos.

Diolch yn fawr iawn am ddarllen fy stori fechan.

Mary Williams

Fy enw i ydy Mary Williams. Dw i'n byw yn Llanfairfechan yn Sir Conwy, ar lan y môr rhwng Bangor a Chonwy. Dw i'n byw gyda ffrind. Dw i'n gweithio ym Mharc Cenedlaethol Eryri i'r elusen Cymdeithas Eryri. Mae ein gwirfoddolwyr yn helpu gofalu am y parc. Mae ein gwaith yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ymarferol, yn cynnwys plannu coed, cynnal a chadw llwybrau troed a chasglu sbwriel. Ewch at ein gwefan: www.snowdonia-society.org.uk neu edrychwch ar Instagram, Facebook neu Twitter!

Mae fy swydd yn fendigedig achos mae hi'n hwyl gweithio tu allan yn y mynyddoedd a dwi i'n cwrdd â llawer o bobl. Dw i'n dod o Sir Benfro yn wreiddiol a dw i wedi bod yn byw yng Ngogledd Cymru ers pedair blynedd. Mi wnes i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol a hefyd fel oedolyn. Ond mi wnes i ddysgu mwy ers symud i'r Gogledd, achos mae llawer iawn o bobl yma yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Matt Radley

Helo pawb, Matt dw i. Dw i'n byw yn Lloegr ond mae fy nheulu yn dod yn wreiddiol o Aberteifi, mae fy modryb yn dal yn byw yno. Am amser hir dw i wedi bod eisiau siarad Cymraeg, felly pan ro'n i'n 40 oed (blwyddyn ddiwethaf) nes i benderfynu dechrau gyda Say Something in Welsh. Dw i'n mwynhau'r holl chwaraeon (rygbi yn enwedig), gwranddo ar gerddoriaeth roc, ac ymweld â gorllewin Cymru gyda fy ngwraig a'n plant ni.

Peter Czaja

Helo pawb, Peter dw i. Dw i'n byw yn Kingston upon Thames yn Lloegr. Ond ces i fy ngeni ym Merthyr a fy magi yn Hengoed. Felly, dw i'n dod o Gymru yn wreiddiol. Symudais i Loegr yn yr wythdegau i weithio yn Llundain ond nawr, dw wedi ymddeol. Dw i'n astudio Cymraeg dwywaith yr wythnos, bore dydd Llun a bore dydd Mercher. Dw i ar lefel Canolradd ar hyn o bryd.

Hefyd, dw i'n mynd i glwb darllen gydag Ardal Bae Abertawe dydd Iau, unwaith bob pythefnos. A, dw i'n mynd i fore coffi gydag Ardal Bae Abertawe bob dydd Gwener. Mae rhandir gyda fi, a dw i'n tyfu llawer o lysiau gwahanol fel tatws, ffa, ffa dringo, blodfresych a phannas. Hefyd, mae dwy goeden afal ac un goeden eirin gyda fi. Dw i'n hoffi darllen yn fy amser hamdden.

Katherine Hardy

Katherine dw i. Dw i'n byw yn St Albans ond dw i'n dod o Gymru yn wreiddiol. Ces i fy ngeni mewn ysbyty yng Nghaerdydd. Roedd fy rhieni yn byw ym Merthyr Tudful. Mae brawd ifancach gyda fi, ei enw yw Paul.

Pan o'n i'n wyth oed cafodd fy nhad swydd newydd yn Llundain. Felly symudon ni i St Albans. Es i Aberystwyth i'r Brifysgol achos ro'n i eisiau mynd yn ôl i Gymru. Gwnes i astudio Cemeg am dair blynedd yn Aberystwyth. Roedd llawer o bobl yn siarad Cymraeg yn Aberystwyth ac roedd siop llyfrau Cymraeg.

Ro'n i eisiau dysgu Cymraeg ond doedd dim amser. Wedyn, dwi flynedd yn ôl roedd llawer o amser a gwnes i ddechrau dysgu gyda City Lit ar-lein. Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg a gobeithio bydda i'n gallu siarad Cymraeg pan af i Aberystwyth haf nesa.

Carol Ann Evans

Carol Ann Evans dw i. Dw i'n byw ym Mhencoed ond ces i fy ngeni yn Nantymoel, Cwm Ogwr. Mae gen i ddau o blant, un wyres a thri o wŷrion. Malcolm yw fy nghwr. Roeddwn i'n gweithio yn yr Ysbyty Seiciatrïg am dros dri deg mlynedd. Ond nawr dw i wedi ymddeol. Ond mae gen i lawer o bethau i wneud. Dw i'n canu piano i grwpiau "Tunes are Us" (nid "Toys are Us"). Aelodau o Gapel Soâr, Rhiwceiliog yw Malcolm a fi. Dw i'n canu'r organ yno.

Dros y Nadolig aeth fy ffrindiau a fi i Gapel Castellau i wneud gwasanaeth Carolau i ddathlu genedigaeth baban Iesu. Roedd hi'n hyfryd. Ac wedyn gwasanaeth Carolau yn fy nghapel. Felly roedd hi tipyn bach yn brysur a nawr dwi'n ymlacio gyda llawer o lyfrau.....anrhegion Nadolig.

Frances Allen

Ges i fy ngeni a fy magu yn Swydd Hertford. Do'n i ddim yn gwybod am Gymru na'r iaith Gymraeg. Es i Wrecsam unwaith i weld y pêldroed!

Wedyn, ym 1992, newidiodd fy mywyd pan gollodd fy ngŵr ei swydd. Cymro yw fy ngŵr. Roedd e'n arfer ymweld â Sir Benfro pan oedd yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

blentyn. Symudon ni yma gyda'n dau blentyn bach. Ro'n i'n gweithio fel athrawes mewn ysgolion cynradd.

Dechreuais i ddysgu Cymraeg, ond ar ôl mynd yn rhan amser roedd digon o amser gyda fi i fynd i'r dosbarth Gymraeg. Mae wedi bod yn brofiad anhygoel. Dw i ar lefel uwch nawr - fi, Saesnes!! Mae wedi bod yn gymaint o hwyl a dwi wedi gwneud llawer o ffrindiau. Felly daliwch ati!

Sophie B

Bore da pawb. Sophie dw i a dw i'n byw ger lan y môr yn Lloegr, tua dau gan filltir o Gymru. Felly pam ydw i'n dysgu Cymraeg dach chi'n gofyn? Cafodd taid fy nhad ei eni yng Ngogledd Cymru, felly dw i'n rhannol Gymraeg. Rhan fach iawn, ond dal yn rhan.

Dw i'n hoffi treulio fy amser yn gwneud pethau gyda gwlan, yn crosio ac yn gweu. Ar hyn o bryd dw i'n gwneud siwmpwr, ond gwnes i sawl tegan, het a sgarff eleni. Blwyddyn nesa dw i'n gobeithio crosio asyn a chath i ffrind, os dw i'n llwyddo i orffen y siwmpwr 'ma!

'Dolig Ochr Draw

gan Ffred Nicholas

Dros y gwyliau Nadolig aeth Lilian a fi i Ganada i ymweld â'i brawd a theulu sy'n byw yn Prince George, dinas yn British Columbia. Mae Prince George ar afonydd Fraser a Nechako. Mae tair melin mwydion a phapur, sawl melin lifio a phurfa olew yno.

Roedd yn hyfryd i weld y teulu a mwynhau Nadolig gwyn er bod y tymheredd yn -22! Un bore roedd elc yn sefyll yn yr ardd flaen, roedd yn enfawr; roedd yn wych i weld bywyd gwyllt mor agos.

Aethon ni i weld ein gêm hoci iâ fyw gyntaf; y PG Cougars yn erbyn Tiverton Silvertips. Roedd yn gyflym, yn gyffrous ac yn swllyd. Yn anffodus collodd y Cougars 4-2.

Dydw i ddim yn siŵr os fyddwn ni'n teithio i Ganada eto yn ystod y gaeaf gan fod eira a thywydd gwael yn achosi llawer o oedi ond cawson ni amser gwych.

John Simpson

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers tua phum mlynedd. Dechreuais ar Duolingo ond dw i'n defnyddio Duolingo yn llai ar ôl y newidiadau ar y fformat a dw i wedi cael llond bol ar ddarllen am bannas!

Dw i wedi dysgu ar-lein gyda Phrifysgol Bangor ac mae'r tiwtoriaid yn wych.

Dw i'n mwynhau ysgrifennu straeon yn Saesneg a dw i'n anfon papur newydd bob wythnos i gant o ddarllenwyr- o'r enw Yr Wythnos sydd yn Gymraeg a Saesneg. Dw i'n lawr lwytho erthyglau Cymraeg o'r rhyngwyd ac yn eu cyfieithu i'r Saesneg. Dw i'n trio annog ffrindiau Saesneg i ddysgu Cymraeg.

Roeddwn i'n forwr pan oeddwn i'n ifanc ac mae gen i lawer o straeon ar gyfer teithio, mae'r rhan fwyaf yn lân.

Carin Harris

Helo pawb. Caz dw i a dwi'n byw yn Ne Cymru rhwng Caerdydd ac Abertawe.

Dechreuais i ddysgu Cymraeg er mwyn ail gysylltu gyda fy ngwreiddiau, oherwydd roedd teulu ar ochr fy Mam yn dod o Ynys Môn yn wreiddiol.

Dw i wedi bod yn dysgu'r iaith nawr am tua phedair blynedd. Mae gyda fi llawer mwy i ddysgu, ond dwi'n falch iawn i ddweud galla i gymryd rhan mewn sgwrs Cymraeg.

Nigel yw fy ngŵr a dyn ni wedi bod yn briod ers 1988. Amser hir nawr! Mae gyda ni saith ci achub a llawer o anifeiliaid eraill hefyd. Mae llawer o bobl yn meddwl bod ni'n boncyrs ond mae'r ddau ohonom ni'n dwlu ar anifeiliaid.

Hoffwn ni brynu tyddyn yng Nghaerfyrddin neu Sir Benfro, rhywle preifat gyda llawer o dir ar gyfer yr anifeiliaid. Efallai un diwrnod gyda bach o lwc.

Oes anifeiliaid gyda chi o gwbl? Cath, ci neu gwningen? Anifeiliaid egsotig efallai?

Yn fy amser hamdden dwi wrth fy modd yn fy ystafell crefft. Dwi'n mwynhau ymlacio am dipyn gyda gwnio a gwau.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Un o fy hoff hobiau yw ffotograffiaeth a dw i wedi bod yn tynnu lluniau ers o'n i'n fy ardegau Dw i dal yn tynnu lluniau gyda ffilm weithiau hefyd.

Dwi'n rhedeg clwb Ffotograffiaeth bob yn ail Nos Wener dros Zoom fel arfer, lle dyn ni'n rhannu lluniau a siarad am bopeth i wneud gyda lluniau.

Gwaith cartref neu nofio

gan Richard o'r Antipodes


Dylwn i wneud fy ngwaith cartref Cymraeg y bore 'ma. Ond dim eto. Yn gyntaf, bydda i'n mynd i'r traeth i nofio yn y môr. Mae'r tywydd yn braf yma yng Ngorllewin Awstralia. Mae hi'n dri deg pum gradd yma heddiw.

Efallai bod siarcod yn y môr ond does ofn arna i achos galla i weld llawer o syrffwyr ymhellach allan ar y dŵr. Maen nhw'n abwyd i siarcod. Os nad oes syrffwyr yn agos ataf byddaf yn nofio ger y plant achos mae'r plant yn neidio a sbasio. Maen nhw fel "chaff" o awyren rhyfel i ddenu siarcod. Fydda i ddim yn nofio rhy agos i'r plant achos hynny'n arwain at broblemau gwahanol.

Mae'n amser i mi adael y traeth nawr. Mae fy ngwaith cartref yn aros!

Adar yr Ardd

gan Rebecca Burn



A wnaethoch chi gymryd rhan yn yr arolwg Gwyllo Adar yr Ardd rhwng 27-29 Ionawr eleni? Mae'n ddigwyddiad blynyddol wedi'i drefnu gan yr RSPB sydd yn cael ei gynnal dros Brydain cyfan. Mae'n rhywbeth eithaf syml i'w wneud sydd yn gallu helpu i warchod yr adar sydd yn ymweld â'ch gardd chi. Y cyfan sydd angen wneud ydy treulio awr yn cyfrif y bywyd gwyllt yn eich gardd.

Prin ei bod hi'n bosib rŵan i anwybyddu'r argyfwng ym myd natur sydd ohoni. Mae newid

hinsawdd yn cael effaith difrifol ar fywyd gwyllt ym mhedwar ban y byd. Mae rhai rhywogaethau adar fan hyn yn y DU bron wedi diflannu o'n gerddi ni yn gyfan gwbl yn ddiweddar, er enghraifft y Llinos Werdd (Greenfinch) oherwydd cynyddiad yr haint Trichomonosis a'r fflw adar, yn arbennig.

Mae llawer o ddarllen ar gael am fyd natur sydd yn addas i ddysgwyr Cymraeg, fel fi! Wrth ymddiddori yn y byd natur, mi allwch chi wella eich Cymraeg ar yr un pryd! Wrth ddysgu enwau'r adar, coed a phlanhigion yn eich gardd, neu eich lle gwyrdd lleol byddwch yn ymestyn eich geirfa mewn ffordd hamddenol. Mae'n werth yr ymdrech ac yn gallu eich helpu chi deimlo'n agosach i Gymru, ei thirweddau prydferth a'i thraddodiadau hi.

Dw i wedi bod wrth fy modd yn darllen cyfres 'Cynefin' gan Bethan Wyn Jones ac Iolo Williams. Mae pob llyfr yn y gyfres hon yn gynnwys toeth o ffeithiau diddorol am gynefinoedd byd natur a'r creaduriaid sydd yn byw ynddyn. Mae tri llyfr gwahanol yn y gyfres, sef 'Yr Ardd', 'Y Môr' ac 'Ar y Fferm'. Maen nhw wedi bod yn sobor o ddefnyddiol i fi drïo i ddysgu enwau'r adar, mamaliaid a thrychfilod fy mod i'n gweld yn fy ngardd i.

Dw i'n meddwl efallai bod y llyfrau wedi'u hysgrifennu i bobl ifanc sydd yn siarad Cymraeg brodorol, felly dydyn nhw ddim mor hawdd i ddysgwyr llai profiadol darllen popeth. Er hynny, mae llawer o wybodaeth ddiddorol iawn ynddyn nhw i bawb ddeall a mwynhau, fel geirfa gynefin yn gefn y llyfr, disgrifiadau'r tymhorau ac wrth gwrs, cynefinoedd gwahanol fyd natur.

Neges Bwysig

Mae'r gyfres 'Cynefin' yn cael ei gyhoeddi gan Gwasg Carreg Gwalch. Ewch i'ch siop lyfrau lleol yn gyntaf er mwyn eu cefnogi. Os dach chi'n byw yn bell o siop lyfrau Cymraeg allech chi brynu o wefan Gwales a chefnogi eich siop lyfrau annibynnol trwy ymuno â'r Cynllun Cefnogi Siopau Llyfrau.

Ewch i www.gwales.com wedyn cofrestru a dewis pa bynnag siop dach chi am gefnogi. O hynny ymlaen byddai'r siop yna yn cael cyfraniad oddi wrth Gwales am bob peth dach chi'n prynu oddi wrthyn nhw.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cyn i chi ddechrau darllen y stori nesaf a gaf i ddweud wrtho chi mae gwaith ei hun yw'r lluniau hyfryd.

Mae'n amlwg bod Marie wrth ei bodd efo adar. Diolch Marie!

Gwyllo Adar yr Ardd 2023

gan Marie Mills

Dych chi erioed wedi gwneud hyn? Dw i ddim yn cofio fy nhro gyntaf. Mae'n rhan o fy mywyd, a dw i'n edrych ymlaen yn fawr iawn ato bob blwyddyn.

Dw i'n byw yn yr un tŷ ar ffin ogledd-orllewin y pentref yma ers 18 mlynedd. Dyma'r un pentref hefyd ble nes i dyfu i fyny amser maith cyn hynny. Mae llawer o newidiadau dros y blynyddoedd. Pan o'n i'n plentyn doedd dim bwncath yn yr ardal o gwbl. Gwelais i fwncath am y tro cyntaf yn yr Almaen ym 1991. Roedd llawer ohonyn nhw yn y mynyddoedd ble ro'n i'n byw bryd hynny, ac roedd hi'n rhywbeth arbennig i fi weld nhw.

Yn y flwyddyn 2000 wnaeth Coedwig y Mileniwm gael ei blannu yn ein pentref. Mae hi dros y ffordd, tipyn bach i'r gogledd-orllewin o'n tŷ. Dw i bron yn gallu gweld hi o'r ffenestri cefn. Mae'r coed yn aeddfed nawr, wrth gwrs. Mae cnocell fraith fwyaf a sgrech y coed yn yr ardd weithiau ac weithiau yn yr haf dw i'n gallu clywed caneuon ymwelwyr o Affrica fel siff-saff, oherwydd y goedwig, siŵr o fod.


Mae'r ardd yn aeddfed hefyd. Cynlluniais i hi, a wnaeth fy ngŵr a fi adeiladu hi a phlannu hi ein hunain yn fuan ar ôl symud i mewn. Dros y blynyddoedd mae'r coed a'r perthi wedi tyfu. Mae rhai ohonyn nhw wedi gordyfu ac wedyn rhaid iddyn nhw gael eu torri i lawr. Yn lle llawer o haul, roedd llawer o gysgod, ac roedd rhaid i fi blannu planhigion gwahanol.



Nico

Mae bywyd gwyllt wedi newid, hefyd. 18 mlynedd yn ôl roedd llawer o linos werdd a jibinc yn yr ardd. Dw i ddim wedi gweld nhw yma ers achau, dw i ddim yn siŵr pam. Roedd nifer o ddrudwyod hefyd - tan ddiistriodd rhywun eu nyth yn syth ar ôl i'r wyau deor. Doedd dim geiriau i ddisgrifio sut ro'n i'n teimlo am hynny. Ar ôl i goeden *Cedrus atlantica* "Glauca" gael ei thorri i lawr diflannodd titw penddu hefyd. Plannais i un arall nifer o flynyddoedd yn ôl, a gobeithio bydd titw penddu yn dod nôl pan mae'r goeden wedi tyfu'n fwy.

Ond mae bwncathod yma nawr. Ro'n nhw wedi dod nôl cyn i ni symud yn ôl, a dweud a gwir. Ro'n nhw eithaf cyffredin ar y pryd. Ond yn anffodus roedd llai o gwningod gwyllt yn yr ardal oherwydd yr afiechyd difrifol, RHD. Mae bwncathod yn dibynnu ar gwningod, felly, roedd y nifer o fwncathod yn gostwng hefyd. Mae barcudiaid coch wedi dod, ac mae'r boblogaeth yn tyfu bob blwyddyn. Ers dwy flynedd nawr mae brain yn nythu yn y dderwen dros y ffordd. Byddai'r bwncathod a'r barcudiaid coch yn hoffi cymryd y safle i nythu, ond mae'r brain yn cadw'r lle o hyd.



Columen

Nawr, dychmygwch! Bore dydd Sul diwethaf ro'n i'n eistedd ar lawr yr ystafell gerddoriaeth yn gwyllo'r ardd trwy'r ffenestri Ffrengig. Doedd dim llawer yno ar y dechrau, dim ond ysguthan oedd yn eistedd ar ben *Fagus sylvatica* "Alarch Du", coeden yng nghanol yr ardd. Mae hi wastad yna. Roedd rhaid i mi aros am sbel. Ble roedd yr



Bwncath

adar arferol, tybed? Yn ystod y tywydd rhewlyd roedd yr ardd yn brysur iawn. Ble oedd aderyn y to a oedd yn arfer canu o'r pyracantha wrth y garej bob dydd ers y Nadolig, hyd yn oed pan dw i'n mynd tu fas?

Wedyn sylwais i rywbeth. Hedfanodd

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

yr ysguthan i ffwrdd. Roedd bwncath yn hedfan uwchben yr ardd. Dydy hyn ddim yn anarferol iawn, ond yna glaniodd ar y darn o'r goeden lle oedd yr ysguthan wedi bod yn eistedd dim ond dau funud yn gynt. Waw! Roedd bwncath ar ben coeden yng nghanol ein gardd. Wir! Felly, roedd e'n cael ei recordio.

Daeth robin goch i gael bath tipyn bach nes ymlaen, ac wedyn gwelais aderyn du yn chwilio am fwyd ymhlith y dail ar y llawr o dan y clawdd ffawydden.

A beth oedd y sgôr yn y diwedd?

ysguthan: 1

robin goch: 1

aderyn du: 1

a..... bwncath: 1.

Dw i erioed wedi cael gymaint o gyffro!

Ac mae aderyn y to wedi dod yn ôl ac yn canu o'r pyracantha wrth y garej eto.

Gyda llaw, fath o copper beech ydy *Fagus sylvatica* 'Alarch Du'. Black Swan. Mae hi'n dal, yn gul ac yn wylofus hefyd. Ffeindiais i'r goeden mewn canolfan garddio tua phymtheg mlynedd yn ôl. Dw i erioed wedi gweld coeden fel honno ers hynny.

Beth am sefydlu grŵp?

Byddai gwneud hyn yn gyfle i ymarfer beth dach chi wedi dysgu yn y dosbarth. Dim ond trwy ymarfer mae rheolau'r iaith yn dechrau gwneud synnwyr.

Byddech yn symud ymlaen yn llawer cyflymach ac yn cyfarfod eraill sydd yn dysgu Cymraeg.

Yn y blynyddoedd i ddod byddwch yn gallu helpu eraill sydd yn dechrau dysgu.

Siaradwch efo'r lleill yn y dosbarth, dewiswch gaffi, prynwch banded a sgwrsiwch!

Ciconiaid o Gasteiz

gan Deborah McCarney



Jabiru – Parc Gwladol Kakadu
Tiriogaeth y Gogledd, Awstralia

Dw i ddim cweit yn siŵr pam ond un o'r pethau o'n i wastad eisiau gwneud yn fy mywyd oedd gweld ciconiaid ar eu nythod. Pan o'n i'n byw yng ngogledd Queensland, Awstralia, fe welais i aranod o'r enw broлга sy'n dawnsio gyda'i gilydd pan maen nhw'n dewis cymar. Wedyn symudais i i Darwin, Tiriogaeth y Gogledd, ac yno fe welais i adar o deulu ciconiaid o'r enw jabiru neu grëyr du-gwddf. Ro'n nhw'n hyll mewn ffordd ond ro'n i'n eu hoffi nhw, yn enwedig y ffordd maen nhw'n eistedd lawr fel maen nhw'n penlinio ond gyda'u coesau yn mynd i'r ffrynt yn hytrach na thu ôl iddyn nhw. Mae'n edrych yn rhyfedd iawn!

Ond y fath o giconiaid ro'n i eisiau gweld oedd y rhai sy'n creu nythod enfawr ar ben eglwysi neu erialau teledu. Ro'n i wedi darllen yn y gorffennol bod yr adar hynny'n dechrau diflannu, fel cymaint o anifeiliaid eraill, felly roedd ofn arna i y byddwn i'n rhy hwyr. O'r hyn ddarllenais i fe ges i'r argraff bod rhaid i fi fynd i rywle fel Alsace, dwyrain Ffrainc, i'w gweld nhw ac efallai ro'n i'n mynd i fynd yr holl ffordd i Alsace a dod nôl adref heb weld hyd yn oed un ohonyn nhw!

Felly, dach chi'n gallu dychmygu pa mor gyffrous o'n i pan wnes i sylweddoli bod ciconiaid yn byw yn Gasteiz! Nid dim ond llond llaw ohonyn nhw chwaith, ond cannoedd, os nad miloedd! Mae'r rhan fwyaf yn byw ar gyrion y ddinas mewn parc gwladol gyda llynnoedd, coed, anifeiliaid fel ceirw a moch gwyllt, ac wrth gwrs, llawer iawn o adar eraill.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Ond mae rhai ciconiaid yn byw yn y ddinas ei hunan. Fel arfer dach chi ddim yn eu gweld nhw yn y dydd. Maen nhw'n mynd mas o'r ddinas yn



gynnar yn y bore i chwilio am fwyd, ond gyda'r nos, os dach chi'n lwcus, gallech chi weld un neu ddau ohonyn nhw yn dod nôl i gysgu mewn lle uchel. Ro'n i'n cerdded heibio hen eglwys yng nghanol y ddinas un noswaith a gwelais i un yn

hedfan gyda'i goesau wedi'u hestyn tu ôl iddo fe syth i mewn i'r clochdy. Ro'n i'n sefyll yno am sbel yn trio gweld y ciconia eto, a ro'n i eisiau dweud wrth bobl o fy nghwmpas, "Mae ciconia yn y clochdy yno!", ond ddwedais i ddim byd wrth gwrs. Dw i ddim eisiau i bobl feddwl fy mod i fach yn wallgof!

Ond ddoe dysgais i rywbeth newydd am y ciconiaid. Mae'r ciconiaid sydd yma ar hyn o bryd yn dod o Sgandinafia! Dw i wedi gweld ciconiaid trwy'r flwyddyn, felly ro'n i'n tybio mai'r un adar o'n nhw, ond na. Dydy'n ciconiaid ni ddim yn hoffi aros yn Gasteiz yn ystod y tywydd oer dros y gaeaf, felly maen nhw'n mynd i Affrica neu Cáceres, yn de Sbaen, ac yn eu lle daw llawer o giconiaid o Sgandinafia.

Ond does dim ots i fi o ble maen nhw'n dod. Roedd ffeindio ciconiaid yma yn Gasteiz yn syndod enfawr i fi a dw i'n hapus iawn i'w gweld nhw!

Jen Thomas

Jen Thomas dw i. Ces i fy ngeni a magu ym Mhen y Bont ar Ogwr. Ro' ni'n byw ar fferm fach. Es i Ysgol Gramadeg Y Garw ym Mhontycymer lle cwrddais fy ngŵr sy'n siaradwr iaith gyntaf. Doeddwn i ddim yn hoffi dysgu Cymraeg yn yr ysgol a dim ond tipyn bach o'r iaith cofiais i.

Pan o'n i'n blentyn bysai fy rhieni weithiau yn siarad Wenglish o flaen i a'm mrawd fel bo ni ddim yn ei deall. Yn y chwedegau hwyr symudais i Lundain i gael hyfforddiant fel nyrs blant yn

Ysbyty Great Ormond Street a gweithiais gyda phlant tan i mi ymddeol.

Roeddwn i'n byw yn Lloegr am lawer o flynyddoedd, yn Llundain, Norwich, Caergrawnt ac yna yn Tring yn Hertfordshire am dri deg blynedd. Mae gen i ddau o blant, fy merch yn byw yn Llundain gyda'i theulu a fy mab yn Sir Benfro gyda'i deulu.

Roeddwn ni eisiau symud yn ôl i Gymru ers tro a dewisais fyw ym Mhen y Bont unwaith eto achos roedd hi'n gyfleus i deithio i Lundain a Sir Benfro i ymweld â'n plant. Symudais yn ôl i Ben y Bont pedwar blynedd yn ôl. Dw i wrth fy modd yn byw yma yn agos i'r traethau a mynyddoedd De Cymru.

Ers i mi fod yn ôl, dw i wedi cwrdd â phobl o fy hen ysgolion. Ro'n i'n pryderu am wneud ffrindiau newydd ond ar ôl ymuno ag U3A a'r grwp Ramblers, dw i'n mwynhau cerdded trwy gefn gwlad brydferth a gwneud ffrindiau da. Mae pobl yn gyfeillgar iawn.

Ro' i'n arfer gofyn i fy ngŵr i gyfieithu arwyddion heol i fi a gwnes i'r penderfyniad i ddysgu Cymraeg. Dechreuais i gyda Duolingo yn fis Mehefin 2019 ac yn Ionawr 2021 ar lein gyda Dysgu Cymraeg Prifysgol Morgannwg. Dyn ni'n cwrdd dwywaith yr wythnos a dyn ni'n astudio Canolradd ar hyn o bryd.

Y llynedd es i'r Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan i gwrdd â fy nghyd-ddisgyblion a'n tiwtor Mansel Jones, roedden ni gyda'n gilydd am y tro cyntaf. Daethon ni o Gymru a Lloegr ac un, Paul, o'r Unol Daleithiau. Cawson ni ddiwrnod bendigedig.

Dw i'n meddwl ei fod yn anodd dysgu Cymraeg ond dw i'n mwynhau fy nosbarthiadau. Maen nhw'n llawn hwyl. Dw i'n gobeithio bod fy sgysiaid Cymraeg yn well na Wenglish fy rhieni.

Y Wennol

Strawen gan ddysgwyr i basw eu darllen
e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Newyddion Da!

Mae holl ôl-rifau Y Wennol ar gael ar fy ngwefan

www.gydangilydd.cymru

Llawer, llawer, llawer mwy o Gymraeg i'w ddarllen

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027



Dewch efo ni ...

... am lond diwrnod o siarad tu allan yn y cefn gwlad a dysgu am fyd natur a hanes lleol. Wrth gerdded efo ni yn reolaidd byddech yn gallu gweld lliwiau ein byd yn newid trwy'r tymhorau, gwneud ffrindiau newydd a dod i adnabod y byd Cymraeg.

Y De a'r Canolbarth

Rhaglen Mawrth/Ebrill 2023

Mae pob taith yn dechrau am 10.30

Dim cŵn os gwelwch yn dda

Teithiau'n gorffen tua 3.00

4-3-23 Caerllion a'r Ardal. Ymweld ag olion Rhufeinig a sawl lleoliad hanesyddol o ddiddordeb yn y dre, wedyn taith gerdded fer, ond â manau serth a mwdlyd trwy'r goedwig i Fryn Cas-gwent. (cyfanswm 5 milltir) **Man**

Cyfarfod Maes Parcio Cold Bath Road, (dim tâl) Caerllion

NP18 1NF. ST334907 Arweinydd: Shelagh Fishlock

07951 234618

11-3-23 Y Mwmbwls a Baeau Rotherslade a Langland. Taith hamddenol, tua 5 milltir, (peth dringo ac un rhes o risiau) i edrych ar rhai agweddau o hanes yr ardal. **Man Cyfarfod** Maes parcio Knab Rock, (tâl), gyferbyn a Chlwb Hwyllo'r Mwmbwls. **SA3 4EL. SS627876 Arweinydd:** Martin Jones 07715 619523

18-3-23 Archeoleg Ddiwydiannol Bryn-mawr a Chwm Clydach. Bydd y daith gylchol hon (tua 6 milltir) yn edrych ar yr archaeoleg ddiwydiannol ysblennydd sy'n gysylltiedig â Meistri Haearn drwg-enwog Nant-y-glo, Crawshay a Joseph Bailey. Cawn ni ymweld â Rheilffordd Clydach 1794, gwaith haearn Clydach a Rheilffordd Merthyr, Tredegar a'r Fenni. Dyma'r cyfle cyntaf ers deuli Ffordd Blaenau'r Cymoedd i gerdded y llwybrau newydd a'r hen lwybrau sydd wedi bod ar gau ers 2014.

Man Cyfarfod Amgueddfa Bryn-mawr, Sgwâr y Farchnad, Bryn-mawr, **NP23 4AJ. SO191117**

Arweinydd: Frank Olding 01873 856959

Mwy ar y dudalen nesaf

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

25-3-23 Yng Nghanol y Bryniau, ardal Dde Ddwyrain Mynyddoedd Duon, Sir Fynwy. Taith tua 7 milltir ar lwybrau hanesyddol. Peth dringo dros Dwyn y Gaer, wedyn lawr i gwm Grwyne Fawr ac yn ôl o amgylch y Gaer. **Man Cyfarfod** Maes parcio Fforest Cwm lou (ddim ar y map). Trowch i'r chwith i fyny'r lôn gul gyferbyn â thafarn y Queens Head. Côt Post agosaf **NP7 7NE. SO306221 Arweinydd:** Olwen Jones 01873 857866

1-4-23 Mynachlog Fawr a cherflun Y Pererin Ystrad Fflur. Bydd Charles Arch yn rhoi hanes y lle hynafol yma am 10.45 yn y Beudy Bach. **Sylwer** Fe fydd arddangosfa'r Tŷ Pair ar agor am ddeg. Ambell fan serth a gwlyb, ffyn yn fanteisiol.

Fydd paned ar gael ar y diwedd cyfraniad os yn bosib plis.

www.ystradfflur.org.uk **Man Cyfarfod** Maes parcio Ystrad Fflur **SY25 6ES. SN746656**

Arweinydd: Geoff Davies 07975893532 neu e bost davies_enlli@hotmail.com

8-4-23 Rwy'n Gweld o Bell y Dydd yn Dod, Ardal Cwmllynfell. Cylchdaith hamddenol tua 6 milltir, braidd dim dringo, yn ymweld â fferm Ddol Gam, man geni Watcyn Wyn. Llwybrau cadarn, ond un man gwlyb. **Man Cyfarfod** Maes parcio ger y parc ar heol Penygraig, Ystradowen, Cwmllynfell.

SA9 2YP. SN752124 Arweinydd: Eirian Davies 01792 844821

15-4-23 Y Garn Goch a Thrichrug Cylchdaith tua 7 milltir, fe fyddwn yn dringo i fyny i ymweld â Chofeb Gwynfor Evans, Y Garn Goch ac wedyn ymlwybro i fyny i ochrau Trichrug. Nodwch fod 2 ddringfa serth 1 ar yr heol ar y dechrau ac 1 i fyny i Drichrug.

Mi fydd rhan o deulu'r diweddar John Harry yn ymuno gyda ni ger cofeb Gwynfor. Dymuniad John oedd fod ei lwch yn cael ei wasgaru yma yng nghwmni ei ffrindiau o'r Gymdeithas. Os nad ydych eisiau cerdded y daith fe fydd croeso i chi ymuno â ni ger y gofeb. Ni fydd yna unrhyw 'seremoni', eto yn ôl ei ddymuniad. **Man Cyfarfod** Capel Bethlehem Côt Post agosaf **SA19 6AL. SN687249**

Arweinydd: Peter Evans 01269 832204

22-4-23 Crwbin Ymweld â safleoedd archeolegol a chwarrau Mynydd Llangyndeyrn. Tua 5 milltir, peth dringo hamddenol. **Man Cyfarfod** Ar y sgwâr ar y B4306 (troad Meinciau/lloches bysiau) rhwng Bancffosfelen/Crwbin. Côt Post agosaf **SA17 5DA. SN481126 Arweinydd:** Mal James 01269 870085

29-4-23 Cofeb Carlo (Ardal Blaenafon) Taith gylch tua 5.5 milltir gyda thipyn o ddringo i ben Mynydd Farteg Fawr. Rhai llwybrau garw. **Man Cyfarfod** Arhosfan ger Canolfan Cymunedol y Varteg. Ar y chwith ar y B4246 os ydych chi'n dod o Flaenafon, ar y dde os ydych chi'n dod o Garndiffaith.

Côt Post agosaf **NP4 7RT. SO266059 Arweinydd:** Ena Morris. 07890611737

Croeso Mawr

Cofiwch fod croeso mawr i chi ddod ar ein teithiau a chael diwrnod o siarad Cymraeg efo pobl sydd wedi arfer siarad efo dysgwyr. Byddech yn cael 5 awr yn yr awyr iach ac yn profi golygfeydd ysblennydd Cymru. Mae tywydd gwell o'n blaenau ni a llawer o flodau a lliwiau newydd y gwanwyn i'w fwynhau.

Dim ond £20 y flwyddyn yw'r tâl aelodaeth a, gan ein bod ni ar ail hanner ein blwyddyn byddech yn cael ymaelodaeth tan 30ain Mehefin 2024 am yr un pris. A byddech yn cael yr un neu ddau gyntaf yn rhad ac am ddim!

Byddech chi ddim yn difaru!

A Warm Welcome

Remember you will get a warm welcome on our walks and a day of speaking Welsh with people who are used to talking with learners. You will have 5 hours in the fresh air and enjoy Wales' splendid scenery. Better weather is in front of us and so many flowers and fresh colours to enjoy.

Membership is only £20 a year and, as we are half way through our year you can have membership until June 30th 2024 for the same price. And you can have the first one or two completely free!

You won't regret it!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Llefydd ble mae grwpiau Cymraeg ar gael

Abergwaun, Sir Benfro. Cyfarfod yn Janes Woolshop, High Street, Abergwaun.

SA65 9AR bob dydd Llun rhwng 10.30 a 12.30. Croeso cynnes i bawb!

Birmingham

Cwrdd y cyntaf dydd Llun a'r trydydd dydd Mawrth bob mis. Cherry Reds (cafe bar), John Bright Street, Birmingham, B1 1Bj

janine310@btinternet.com

Facebook - Birmingham Welsh Meet Up

Caerdydd Clonc Bore Llun. Yr Awr Hapus.

Un wythnos ar Zoom, 10-10.40 wythnos wedyn yn yr Hollybush Coryton, 10.30-11.30. Yna nol ar Zoom unwaith eto... Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu, @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerdydd Clonc dydd Iau Castell Caerdydd, awyr agored rhwng 1-2 o'r gloch. Ond erbyn canol Hydref nol i gaffi Neros yn Jams Hywel, Yr Ais fydd hi mae'n siŵr. Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com neu @GwilymDafydd ar Trydar am fwy o fanylion.

Caerloyw. Lock Keepers, Horseshoe Drive, Over, GL2 8DB. Dydd Iau 9fed Tachwedd, 2.00yp. Dewch i gael hwyl a chyfle gwych i siarad Cymraeg. Peidiwch â bod yn swil! ebost: fibenson@gmail.com

Caerwysg (Exeter) Mae'r grŵp yn cyfarfod ar brynhawn dydd Mawrth yn Kenton. Mae'r lleoliad yn amrywio ond dw i'n hapus i bobl anfon e-bost ataf am fanylion.

Sandra Laslett sandralaslett@hotmail.com

Cwm Ivy, Bro Gŵyr - Shw mae dydd Iau

Caffi Cwm Ivy Llanmadoc. SA3 1DJ Ewch heibio'r dafarn Britannia tuag at yr eglwys, trowch i'r dde a parcio yn y cae ar y dde. Golygfeydd ysblennydd a chroeso Cymraeg cynnes. Pob dydd Iau am 11yb.

bobwennol@ntlworld.com

De Ddwyrain Cernyw - y bore Gwener olaf yn y mis, am 10:30 yb am awr neu awr a hanner; fel arfer yn y caffi ym Mhortwrinkle - The Jolly Roger, neu yn Looe yn Island View Cafe (ar ôl y Pasg). Ond - cysylltwch â Lillian am fanylion yn gyntaf. lillian@environomics.co.uk

Dwyfor

Pwllheli cyfarfod ar ddydd Llun cyntaf y mis am 10.30 ym Mlas Heli LL53 5YT

Llanystumdwy cyfarfod ar y 4edd nos Fercher y mis am 19.30 yn Y Plu **LL52 0SH**

Nefyn cyfarfod yr 2il nos Lun y mis am 19.30 yn Yr Heliwr LL53 6HD

Porthmadog cyfarfod ar y 3ydd dydd Sadwrn y mis am 10.30 LL49 9HB

Am fwy o fanylion cysylltwch â Martin:

m.croydon@bangor.ac.uk

www.facebook.com/HwbCymraegDwyfor

Llanelli Cyfarfod yn Nhafarn y Glowyr am 7.00 tan 8.30 bob nos Lun. Croeso i bawb.

clwbclecsllanelli@gmail.com

Newton, Bro Gŵyr: Yn Neuadd y plwyf, St Peter's Newton SA3 4RA bob dydd Mercher o 12.30 tan 2.30. Mae hyd yn oed y barista yn siarad Cymraeg. Dewch i fwynhau a siarad Cymraeg. vanessabassett@hotmail.com

Oxford/Rhydychen 'Space for Reading', Weston Library, Broad Street, Oxford, OX1 3BG. Pob dydd Gwener amser cinio, 12:00 tan 13:00 Cysylltwch â John Williams jwilliams718@btopenworld.com

Pontypŵl cyfarfod ger Canolfan Hamdden Pontypŵl pob dydd Mawrth am 10.00 ac yn cerdded draw i gaffi'r Basin ger y gamlas (tua milltir). Aros am goffi yn y ganolfan hamdden os nad yw'r tywydd yn ffafriol. **NP4 8AT**

Porth, Y Rhondda Yr Hen Lyfrgell, 47 Pontypridd Road . Cyfarfod yn y lolfa goffi bob dydd Iau am 10.30 y.b.

Mae llyfrau ail law Cymraeg ar werth a llawer o bethau eraill yn mynd ymlaen hefyd.

Southgate, Bro Gŵyr

Three Cliffs Cafe **SA3 2DH** - pob pnawn dydd Mawrth am 2.00 am ryw awr a hanner. Does dim ond rhaid i chi droi fyny neu cysylltwch â fi o flaen llaw bobwennol@ntlworld.com

St Albans, Hertfordshire. Cyfarfod ail ddydd Sadwrn yng nghaffi canolfan arddio Notcutts, Hatfield Road, St Albans, AL4 0HN o 10.30 i tua hanner dydd.

Ebost: amandaferon@outlook.com

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Saltney Ferry cyfarfod am 11.00 yn Yr Hen Gaffi, Saltney Ferry CH4 0BJ ar y 1af a'r 3ydd dydd Mercher a'r 2il a'r 4edd dydd Sadwrn
cysylltwch â Erica @mackie.co.uk

Thornbury, Glos

Held on the last Tuesday of each month from 14:30 – around 16:00 in Hawkes House, St Mary's shopping precinct, Thornbury BS35 2AB. I call the group 'Cornel y Siaradwyr' and there are usually between 8 and 12 of us present, a mix of 1st language speakers and learners. Contact: britpgi@gmail.com

Trefdraeth, Sir Benfro. Cwrdd bob bore dydd Mercher am 10.30 y.b. yng Nghaffi Blas at Fronlas yn Stryd y Farchnad.

SA42 oPH. Croeso cynnes i bawb.

Trefynwy Clwb Clonc. Pob dydd Llun yn Coffi #1 yn y dref am 1-2pm **NP25 3PS** Croeso i bawb

Treffynnon Dydd Gwener cyntaf bob mis am 2.00 yn y llyfrgell. Croeso cynnes i bawb. Cysylltwch: 07864 149078

Y Fenni Dydd Llun am 10.30-11.30 - Grŵp Bore Coffi - Y Trading Post, Neville Street, Y Fenni, NP7 5AA - Trefnydd: Chris Chetwynd - e-bost Chris.Chetwynd@coleggwent.ac.uk

Y Fenni Dydd Mercher am 13.00 - 14.00 - Clwb Coffi Y Fenni Newydd (Grŵp sgwrsio anffurfiol) - Y Trading Post fel uchod

Trefnydd: Thomas Hughes - 07923 611342
gwybodaeth@menterbgm.cymru

Yr Amwythig

Grove Hotel, 147 Belle Vue Road, Shrewsbury. **SY3 7NN** ar y cyntaf a'r trydydd ddydd Iau pob mis, am 7.30 Am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Bryan Roberts - bryro@btinternet.com neu ar 07985919358

Do you want to publicise your group?

Just send me the details in the same form as the above, and leave the rest to me!

Yma o Hyd ar yr Iwcalili



gan Amanda Davies

Cyn y Nadolig brynes i iwcalili. Pan o'n i'n blentyn ro'n i'n harfer chwarae gitâr felly ar ôl llawer blwyddyn ro'n i isio dysgu chwarae iwcalili.

Mae o'n llawer o hwyl. Dim yn rhy anodd achos dim ond pedwar o dannau sydd ac maen nhw'n neilon, nid metel. Ond ar ôl pythefnos, roedd gen i bothelli ar fy mysedd. Ond heb boen does dim ennill!!!!

Dw i ddim yn gwyllo pêl-droed, achos mae'n well gen i rygbi. Dw i wrth fy mod efo'r gân, "Yma o hyd". Felly dw i'n trio ei dysgu hi.

I ddechrau, roedd hi'n rhy gyflym ond sylweddolais fy mod i'n ychwanegu strym yn ddiangen. Rŵan mae hi'n well o lawer a dwi'n mwynhau hi'n fawr.

Un dydd gobeithio byddaf yn medru chwarae efo dim cyfeiliant ond rŵan dwi'n hapus iawn a dw i'n mwynhau.

Ieithoedd a Het Galed

gan Glenys Rugman



Glenys ydw i. Merch o Loegr yn wreiddiol sy wedi mynychu coleg yn Portsmouth er mwyn astudio daeareg. Roeddwn yn gallu ymweld ag nifer o ardaloedd dros Brydain fel rhan o gyrsiau yn yr awyr agored lle edrychom ni, y myfyrwyr, ar bob math o gerrig. Fel prosiect ar ôl dwy flynedd, ar wahân i fapio, 'gweithiais' mewn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

mwynglawdd yng Nghernyw am dri mis dan ddaear ond roedd yn waith answyddogol achos doedd Deddf Cyfleoedd Cyfartal ddim mewn grym ym myd mwyngloddio yn gynnar yn y 1970au.

Ar ôl graddio, dalais awyren i Zambia, y tro cyntaf i mi deithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig i ddechrau fel daearegwr mewn mwynglawdd copr. Roedd yn fyd newydd, gwlad newydd a chyfandir newydd ond iaith y gweithwyr oedd Saesneg.

Symudais i Kenya ar ôl dau gytundeb. Tra bod pawb yn Nairobi yn deall Saesneg, iaith y wlad oedd KiSwahili. Felly, roedd rhaid i mi ddysgu Swahili yn gyflym achos fy ngwaith yn golygu prosiectau mewn cymoedd ac ar lethrau mynyddoedd lle'r oedd pawb yn siarad dim ond eu hiaith draddodiadol. Swahili oedd y lingua franca. Roedd y gwaith yn ddiddorol ac yn amrywiol ond doedd dim digon o gyfle i weithio dan ddaear

Dechreuais weithio yn Zimbabwe yn fuan ar ôl ei hannibyniaeth. Iaith swyddogol y wlad yw Saesneg heblaw am y ddau lwyth mwyaf sy'n siarad Shona neu Ndebele a'u tafodieithoedd. Doedd dim cyrsiau llafar ar gael, felly gofynnodd grŵp ohonom i athrawes mewn ysgol gynradd leol ddysgu Shona i ni. Roedd yn brofiad anodd. Pob tro roedd rhaid i ni ddeall pam bod enw, berf neu ansoddair yn cytuno, pam bod 23 categorïau o enwau yn bodoli, pa air sy'n perthyn i ba un? O ganlyniad i'r dosbarth gallwn gyfarch bawb ond ni allwn gyfathrebu â nhw.

Gadawais Zimbabwe gyda'r bwriad o ddychwelyd i Brydain. Ond daeth cyfle am gytundeb ym Mrasil, gwlad fwyaf De America lle'r oedd pawb yn siarad Portwgeeg heb ddaear Saesneg. Doedd dim dewis. Roedd angen i mi gyfathrebu yn Bortwgeeg. Roedd meddalwedd y cyfrifiadur hyd yn oed yn Bortwgeeg. Prynais lyfr 'Dysgu dy hun Portwgeeg' a chryno ddisg. O leiaf mewn llety a siopau gallwn ddefnyddio arwyddion llaw a llyfr ymadrodd.

Nesaf es i Namibia lle'r oedd Almaeneg ac Africaans yn cael eu siarad yn flaenoriaeth i Saesneg. Pob bore y tu allan i'm fflat roedd gwarchodwr - cwestiwn pwysig oedd pa iaith i ddweud 'Bore Da' wrtho? Prynais lyfr ymadrodd

Almaeneg ond doedd dim unrhyw eiriadur Africaans wedi cael ei argraffu.

Wedyn, anfonodd fy nghyflogwr fi i Dde Affrica. Mae 11 iaith swyddogol yna ac roedd y fwyaf poblogaidd yn dibynnu lle yn union oedd y gwaith. Africaans yw'r lingua franca yn y mwyngloddiau dros y wlad. Unwaith eto ni allwn brynu llyfr ymadroddion Africaans, felly roedd rhaid i mi gyfathrebu mewn Saesneg.

Dewisais symud i Gymru wrth barhau i weithio i'r un cwmni. Cyn hir daeth swydd ym Mheriw. Iaith y prosiect oedd Sbaeneg ac roedd angen i mi brynu llyfr ymadroddion arall. Yn ogystal â fy ngwaith mwyngloddio ac ymgynghori, fel aelod o dîm diogelwch roedd rhaid i mi deithio ar ran y cwmni i wledydd eraill i wneud archwiliadau. Nid Saesneg oedd yr iaith arferol ond Iseldireg, Ffrangeg a mwy. Roedd gorfodaeth arna i brynu nifer o eiriaduron poced a llyfrau ymadroddion ychwanegol. Yn awr mae silff lawn o lawlyfrau ieithoedd gwahanol gen i.

Nôl yng Nghymru daeth cyfle i gofrestru am gwrs Wlpan. O'r diwedd gallwn ddysgu fy iaith fy hun. Dyma ddechreuad taith ddysgu sydd dal yn parhau. Dros y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi gwneud cyrsiau o Flasu hyd at Loywi. Ar hyd y ffordd dechreuais werthfawrogi'r diwylliant Cymreig, ei hetfeddiaeth a chymryd rhan yn yr iaith go iawn. Yn ychwanegol i ddysgu mewn dosbarth, dw i wedi gwirfoddoli mewn Eisteddfodau Cenedlaethol yn ddechrau ym Maes D, wedyn fel llysgennad a stiward. Eleni gweithiais ar stondin lle siaradais gyda phawb. Efallai rwyf wedi cyrraedd trothwy siaradwr rhugl.

Taith hir yw taith iaith ond mae fy nhaith Gymraeg yn galluogi fi fwynhau darllen ac ysgrifennu sy'n fwy na chyfathrebu ar lefel sylfaenol. Mae silff arall yn cynnwys llyfrau Cymraeg gen i.

Fy Nhaith Iaith

gan Anne Savage

Dechreues i ddysgu Cymraeg dwy flynedd yn ôl cyn y cyfnod clo. Yn wreiddiol ro'n i ddim ond isio siarad efo fy wyrion sy'n byw yn Rhuthun, gogledd Cymru efo eu rhieni (ein merch ni a'n mab y gyfraith). Ond rwan mae'n rhaid i mi

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ddysgu er mwyn fi fy hun. Dw i isio fod yn rhugl un diwrnod, gobeithio! Mae'n helpu mod i'n dotio ar yr iaith rŵan.

Mae fy stori yn syml iawn, a dweud a gwir, dydy o ddim yn "stori" go iawn. Dydy hi ddim yn gyffrous a does dim sgerbydau yn y cwpwrdd. Jyst bywyd efo Cymraeg. Dw i'n Saesnes (hanner Albanaid). Dw i'n byw efo fy ngŵr a dau gi ym mhentre' bach o'r enw Enville rhwng Bridgnorth a Stourbridge, Canolbarth Lloegr.

Dw i'n trio dysgu bob dydd ac ymarfer un uned o "Dysgu Cymraeg" ac un o SSiW. Hefyd, dw i'n siarad efo ffrindiau ar Zoom o'r Almaen, Lloegr, Cymru, Iwerddon ac Awstralia. Dw i'n ymuno a sgysiau ar "Slack" dros y byd pryd bynnag dwi'n medru. Dw i wrth fy modd efo'r cyfan a dw i mor falch fy mod i'n medru cael sgwrs a chael hwyl ar yr un pryd.

Yr un peth dwi'n edrych ymlaen yn fawr ato ydy penwythnos yng "Ngarth Newydd" ym mis Mawrth. Mae'n benwythnos Gŵyl Ddewi efo dysgwyr eraill. Ym mis Gorffennaf dwi'n mynd eto i gwrdd â fy ffrind o Awstralia. Mi wnawn i siarad Cymraeg drwy'r amser. Dw i'n gwranddo ar Radio Cymru a gwylio S4C, ond weithiau mae'n ychydig yn rhwystredig pan mae pobl yn siarad mor gyflym a dw i ddim yn gwybod yr holl eiriau. Ond mi wna i lwyddo!! Un diwrnod!!

Os dach i'n meddwl weithiau, "I just can't do this!" ewch am dro, bwytwch siocled, yfwch win, darllenwch rywbeth yn Saesneg, dawnsiwch !! Rhywbeth! Bydd y Gymraeg yno yfory a'ch llyfrau a'ch geiriadur. Mae yfory'n ddiwrnod arall. Wastad!

Dw i'n teimlo tipyn bach yn drist achos na ddechreuais ddysgu Cymraeg pan o'n i'n ifanc. S'dim ots....Dyna fywyd i chi!!

Pob lwc pawb. Cymru am byth!

Helen John

Haia, Helen dw i, a dwi'n byw yn Sgeti. Dros y flwyddyn ddiwethaf, es i ar lawer o wyliau diddorol ym Mhrydain. Ym mis Mawrth, es i Wiltshire yn y garafán ac es i weld Stonehenge am y tro cyntaf, roedd e'n anhygoel! Dwi'n dwli ar hanes ac yn enwedig hanes o'r cyfnod Neolithig.

Mis Ebrill, es i weld hen ffrind sydd yn byw yn Rhydychen. Dwi ddim wedi gweld hi ers pan o'n ni ym Mhrifysgol Caerdydd, pedwar deg mlynedd yn ôl. Mae Rhydychen yn le diddorol iawn, llawer o amgueddfeydd, a llawer o hwyl yn trio dysgu 'gyrru' pwnt ar yr afon!

Ym Mis Medi, es i Stratford i weld drama gan William Shakespeare. Welais i 'Richard y Trydydd' ac roedd e'n ardderchog. Gan i mi weld y ddrama, es i weld y ffilm 'The Lost King' yn Sinema Taliesin, mae'n sôn am ddarganfod corff Brenin Richard, dan y maes parcio yng Nghaerlŷr. Mwynheais yn fawr iawn.

Gobeithio fod chi wedi mwynhau darllen am fy nheithiau llynedd.

Gŵyl Fair y Canhwyllau

gan Patrick Soper

Dyma un o ddathliadau sy'n debygol yn deillio o sawl gwreiddyn, ond ansicr yw bob un ohonyn nhw. Wedi'i gynnal pob blwyddyn ar 2il mis Chwefror, fe'i henwir hefyd 'Cyflwyniad Iesu yn y Deml' pan gafodd y baban ei groesawu gan Simeon fel y Meseia hir disgwylidig; mae rhai yn credu mai dyma 'Buredigaeth' y Forwyn Fair, pan fyddai mam yn cael ei 'phureiddio' ar ôl genedigaeth plentyn.

Hefyd, dyma ŵyl Sant Ffraid, mamsant Iwerddon. Does dim gwybodaeth ar gael amdani, heblaw iddi, mwy na thebyg, fyw yn ystod y 6ed canrif, ac iddi sefydlu mynachlog enwog Cildara. Mewn gwirionedd Ffraid oedd dduwies baganaidd y gwanwyn i'r Gwyddel. Er hynny heddiw y caiff Croes Santes Ffraid ei gwneud o wellt neu weithiau o frwyn, gyda phedwar braich o'r un hyd. Mae llywodraeth Iwerddon wedi cyhoeddi y bydd yr 2il o fis Chwefror yn ŵyl gyhoeddus o'r flwyddyn 2023 ymlaen.

Taswn ni'n edrych yn ôl ymhellach y bydden yn dod ar draws gŵyl baganaidd 'Imbolc', wedi'i dathlu gyda choelcerthi a rhialtwch. Dyna pryd roedd ein hynafiaid yn yr ynysoedd yma yn awyddus i roi'r gaeaf y tu ôl iddyn nhw ac i edrych ymlaen at gynhesrwydd y gwanwyn a gobaith o fywyd newydd. Mae'r enw'n cyfeirio efallai at ddefaid yn beichiogi, ac yn cael ei gysylltu hefyd â chymunedau gwledig ar fin paratoi ar gyfer

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

hadu eu caeau. A dweud y gwir y bydd Imbolc y flwyddyn hon ar 5ed mis Chwefror, yr ail leuad lawn ar ôl heulsaf y gaeaf.

Yn gyffredinol, tua'r adeg yma o'r flwyddyn y chwiliwn gyda gobaith am arwyddion y gwanwyn yn agosáu, megis moch daear ac anifeiliaid eraill yn dod mas o'u ffeiau. Caiff hyn ei gysylltu â dathliad Americanaidd 'Groundhog Day', pan oedd y cnofilod brodorol yma yn dechrau gadael llochesi'r gaeaf.

P'un ai inni fynychu at fendithio canhwyllau yn yr eglwys, neu godi coelcerthi yn ein gerddi cefn, gadewch inni fod yn hapus fod y gaeaf yn encilio a cheir eirlisiau yn ein perthi cefn gwlad unwaith eto.

Cromwell – Y Cysylltiad Cymreig

gan Martin Jones



Yn ystod y rhyfeloedd cartref yn y 1640au a'r 1650au, arhosodd Cymru'n gadarn o blaid y teulu brenhinol gyda'r mwyafrif llethol o bobl yng Nghymru'n cefnogi lluoedd y brenin. Ffactor pwysig y tu ôl i'r gefnogaeth hwn oedd ymlyniad dwfn i Eglwys Loegr, ac wrth gwrs y brenin oedd (ac yn parhau i fod) pennaeth yr eglwys. Dim ond ddwywaith ymwelodd Oliver Cromwell â Chymru, unwaith ar ei ffordd i Iwerddon ac unwaith gyda byddin i ostegu sawl mil o'i thrigolion anfodlon!

Ond gwelodd grŵp bach o bobl yng Nghymru, sef y Piwritaniaid, Oliver Cromwell fel arwr brodorol. Doedden nhw dim yn credu bod y Diwygiad Protestannaidd wedi mynd yn ddigon pell i gael gwared ar orffennol Catholig Eglwys Loegr, ac felly roedden nhw'n cefnogi Oliver Cromwell. Ond pam arwr brodorol? Wel, fel mae'n digwydd, roedd Oliver Cromwell yn ddisgynydd i Morgan Williams o Forgannwg (yn bosib o ardal Yr Eglwys Newydd ger

Caerdydd). Symudodd Morgan i Putney a phriododd Katherine Cromwell, chwaer Thomas Cromwell, prif weinidog Harry VIII. Dewisodd Richard, mab William, y cyfenw "Williams alias Cromwell." Symudodd y teulu i Huntingdonshire ond nid anghofion nhw eu hetifeddiaeth Gymreig: comisiynon nhw goeden achau yn mynd yn ôl at y tywysogion Cymraeg, a gosododd ffenestri lliwiedig yn dangos eu cysylltiadau Cymreig.

Pan briododd Oliver Cromwell yn 1620, cafodd ei ddisgrifio fel "Oliv(er) Cromwell alias Williams." Ac mae dogfen arall yn 1631 yn ei gyflwyno fel "Oliver Williams alias Cromwell." Yn 1647, pan ysgrifennodd at Archesgob Canterbury, John Williams o Gymru, cyfarchodd e fel câr.

Yn gynnar yn y 1640au, pan oedd Cromwell dim ond yn Aelod Seneddol anadnabyddus, cefnogodd e achos Piwritaniaid Cymreig yn y Senedd gan ddadlau o blaid Piwritaniaid Sir Fynwy (oedd yn cael eu haflonyddu gan yr awdurdodau) a Phiwritaniaid Gŵyr (yn erbyn eu gweinidog). Mae'n ddiddorol hefyd nodi i sêl bersonol Cromwell gynnwys elfennau herodrol oddi ar y tywysogion Cymraeg. Mae'n ymddangos, felly, nad oedd o'n anghofio ei wreiddiau Cymreig.

Ar ôl buddugoliaeth plaid y Senedd yn y rhyfeloedd cartref, daeth Cromwell yn fwyfwy cysylltiedig â materion Cymreig. Yn gyntaf, rhoddodd y Senedd iddo fe diroedd, gan gynnwys ystadau yn Sir Fynwy a bron Gŵyr cyfan, yr aethpwyd â nhw oddi ar Iarll Worcester. Mae tystiolaeth i Cromwell ddefnyddio'r tiroedd hyn i galonogi achos y Piwritaniaid yng Nghymru.

Yn ail, ac yn agos iawn at ei galon, roedd "The Commission for the Propagation of the Gospel in Wales." Wedi'i gefnogi gan y wladwriaeth, cefnogodd y Comisiwn yn ei dro'r Piwritaniaid yn eu hymdrechion i gael y bobl yng Nghymru i droi at ffurf ddiwygiedig o Brotestaniaeth.

Yn sgil adferiad y frenhiniaeth, yng Nghymru cafodd Cromwell ei ddarlunio gan y sefydliadau crefyddol a gwleidyddol fel diafol a oedd wedi dod â dim ond rhyfel, anhrefn grefyddol, a gormes. Ond daeth y tyfiant o Anghydfurfaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg â barn wahanol o Cromwell. Nawr roedd e'n fath o arwr cenedlaethol - rhywun oedd wedi helpu

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

rhagflaenwyr yr anghydfurfwyr, sef y Piwritaniaid. Codwyd cerfluniau o flaen capeli; galwyd strydoedd yn “Cromwell Street;” a chyflwynwyd barddoniaeth ynglŷn â Cromwell mewn eisteddfodau. Ond ers hynny, mae e wedi dod i raddau helaeth yn ffigur anghofiedig yn hanes Cymru.

Cymru ar Feic

gan Mikeal Conc



Dach chi eisiau cwrs cyflym yn yr iaith Llydaweg?

Would you like a crash course in Breton?

Dw i'n paratoi taith ar feic trwy Gymru gyda fy ngwraig, mi fydd y daith yn dilyn y ‘Celtic Trail’ o Bont Hafren ac yn dilyn yr arfordir hyd at Drefdraeth yn sir Benfro. Bydden ni'n dechrau tua 8fed o Fehefin a chyrraedd Trefdraeth ar y 18fed. Dw i'n gobeithio byddai hyn yn gyfle i mi ymarfer a gwella fy Nghymraeg wrth gyfarfod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ar y ffordd. Bydden ni'n beicio tua 50 km bob dydd.

Mae Rob wedi cynnig i ni aros efo fo pan dyn ni'n cyrraedd Abertawe ac os byddech yn hapus i gynnig lle i ni dros nos bydden ni'n eich gwobrwyo chi efo gwers yn yr iaith Lydaweg.

Dyma'r llyfnydd bydden ni'n gobeithio aros: Cas-gwent, Caerdydd neu Caerffili, Ystradgynlais (wedi ei drefnu'n barod), Abertawe (wedi ei drefnu'n barod), Llanelli, Sant Clêr, Penfro, Tŷ Ddewi, Nanhyfer (wedi ei drefnu'n barod). Ar yr 20fed bydden ni'n croesi'r môr i Iwerddon a beicio i Cork.

Trugarez ha kenavo ar c'hentañ!

Mikeal

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Mis Chwefror 2023

‘Ystrad Fflur’ (Strata Florida)

gydag Andrew Green

Adolygiad gan Nesta Humphreys



Diolch yn fawr iawn i Andrew am sgwrs ddiddorol iawn. Dydw i ddim yn gyfarwydd â'r lle ond mae rhaid i mi fynd yno cyn bo hir. Dysgais i a'r gynulleidfa lawer am hanes yr abaty a'r lle i gyd yn ogystal â chyflwr presennol yr hen Abaty.

Yn anffodus, does dim llawer o'r abaty na'r safle wedi goroesi a thalodd Andrew deyrnged i David Austin a'i waith ymchwil hollbwysig i hanes ac archaeoleg y safle. Cadeirydd cyntaf Yr Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur oedd David ac Andrew ydy'r Cadeirydd presennol. Dyma ddolen i ddysgu mwy am waith a phwrpas yr Ymddiriedolaeth. Maen nhw'n dibynnu ar wirfoddolwyr ac maen nhw'n apelio am help gyda 'dig' ym mis Mehefin/Gorffennaf.

<https://www.strataflorida.org.uk/cartref.html>

Mae safle Ystrad Fflur ym mhen pellaf Dyffryn Teifi ac mae olion yn bodoli i ddangos bod llawer o bobl yn byw yn yr ardal yn yr Oesoedd Efydd a Haearn. Yn ddiweddarach roedd y Rhufeiniaid yn yr ardal ac mae eu ffyrdd syth yn dal yn bodoli. Mae llawer o ffynhonnau sanctaidd yn yr ardal sy'n awgrymu bod yr ardal wedi bod yn lle sanctaidd am gyfnod hir.

Sefydlodd y Normaniaid anheddiad crefyddol ger y safle presennol ond disodlwyd hwn pan ddaeth Sistersiaid o Hendy-gwyn ar Daf i sefydlu anheddiad newydd. Cafodd y mynachod a'r 18 abaty eu cefnogi gan Rhys ap Gruffydd, arglwydd

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

yr ardal, a roddodd dir i'r anheddiad. Roedd yr abaty Sistersaidd ar ei hanterth yn y ddeuddegfed ganrif a'i thir yn enfawr, yn fwy nag unrhyw abaty arall yng Nghymru.

Yn eu tro, cefnogodd y mynachod Arglwydd Rhys a pharhau i uniaethu â'r tywysogion Cymru a'u dymuniad am annibyniaeth. Claddwyd llawer ohonyn nhw yn Ystrad Fflur ac mae rhai yn credu bod bedd Dafydd ap Gwilym yno. Daeth y safle yn ganolfan grefyddol, economaidd a diwylliannol bwysig. Wrth gwrs, ar ôl Diddymiad y Mynachlogydd, aeth y safle yn adfeilion. Defnyddiwyd rhai o'r cerrig ar gyfer adeiladau newydd fel ffermdy Mynachlog Fawr.

Mae gwaith yr archeolegwyr wedi bod yn amhrisiadwy. Gwnaeth y gwaith cloddio gan Stephen J Williams yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a datgelodd olion sydd i'w gweld hyd heddiw. Dros y blynyddoedd mae archeolegwyr wedi darganfod llawer o arteffactau pwysig, fel Cwpan Nanteos. Mae'r gwaith archeolegol yn parhau a dyna pam mae Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur yn awyddus i ddenu mwy o wirfoddolwyr a chronfeydd er mwyn cloddio ac i helpu adfer a gwella'r safle.

Unwaith eto, diolch yn fawr i Andrew.

Nos Lun, 13 Mawrth – Ar Zoom - 7 15 yh – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac ar 7 30yh bydd Cleif Harpwood yn siarad am 'Dylanwadau'.

Rydym yn casglu aelodaeth 2023 ar hyn o bryd - £15 yr un ar gyfer 2023 neu £3 i ymuno ag un sesiwn. Os oes diddordeb gyda chi'n ymuno â'r Gymdeithas, cysylltwch â nestahumphreys@btinternet.com

Geirfa

Syniad Bach

Egni - energy

Egniol - energetic

Barus - greedy

Parchus - polite

O fewn clyw - within hearing

Archebu - to order

Brensiach annwyl! - goodness me!

Sbarduno - to trigger

Gaeaf gysgu - to hibernate

Cadarnhau - to confirm

Brwdfrydig - enthusiastic

Cynhwysyn olaf - the final ingredient

Taenu - to spread

Eli haul - suntan lotion

Profiadol - experienced

Clwb coffi Newton

Cymdeithasu to socialise

Neuadd y Gymuned - Community Hall

Grŵp Southgate

Bodoli - to exist

Cael ei wireddu - put an idea into action

Datrys - to solve

Lle cyhoeddus - a public place

Yn raddol - gradually

Adrian Pugh

Tanddaearol - underground

Chris Roberts

Cynorthwydd - supporter

gofal iechyd - health care

Caint - Kent

Mynychu - to attend

Tollty - toll house

Er gwaethaf - in spite of

Rebecca Burn

Wedi'i leoli - situated

Earl

Maestref - suburb

Pob hyn a hyn - on and off

Chwedloniaeth - mythology

Barddoniaeth - poetry

Cyhoeddedig - published

Mary Williams

Gwirfoddolwr - volunteer

Ymarferol - practical

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Yn cynnwys - including
Cynnal a chadw - repair and maintenance

Petr Czaja

Rhandir - allotment
Blodfresych cauliflower
Eirin - plum

Sophie B

Gwlân - wool
Crosio - to crochet
Gweu - to knit

'Dolig Ochr Draw

Melin mwydion - pulp mill
Llifio - to saw
Purfa olew - oil refinery
Oedi - to wait

Gwaith cartref

Abwyd - bait

Adar yr Ardd

Gwarchod - to protect
Sydd ohoni - which exists
Ban y byd - corners of the earth
Rhywogaeth - species
DU - UK
Ymddiddori - to have an interest in ...
Ymestyn - to expand
Hamddenol - leisurely
Tirweddau - landscapes
Traddodiad - tradition
Toreth - abundance
Cynefin - habitat
Trychfil - insect

Gwyllo adar yr Ardd

Bwncath - buzzard
Aeddfed - mature
Cnocell fraith fwyaf - greater speckled woodpecker
Sgrech y coed - jay
Cynllunio - to plan
Gordyfu - to grow too much

Cysgod - shade
Llinos werdd - greenfinch
Ji-binc - chaffinch
Ers achau - since a long time
Drudwy - starling
Dinistrio - to destroy
Titw penddu - coal tit
Afiechid difrifol - serious disease
Barcut coch - red kite
Brân - crow
Ystafell gerddoriaeth - music room
Aderyn y to - house sparrow
Clawdd ffawydden - beech hedge
Gwylofus - weeping

Ciconiaid

Ciconiaid - storks
Garan - crane
Brolga - a type of crane
Cymar - partner
Tiriogaeth y gogledd - Northern Territories
Hyll - ugly
Ar gyrion - on the outskirts
Carw - deer
Gwallgof - mad

Jen Thomas

Hyfforddiant - training
Caergrawnt - Cambridge
Pryderu - to worry
Cyd- ddisgyblion - fellow learners
Unol Daleithiau - United States

Iwcalili

Tannau - strings
Pothel - blister
Diangen - unnecessary
Cyfeiliant - accompaniment

Ieithoedd a Het Galed

Daeareg - geology
Mwynglawdd - mine
Answyddogol - unofficial
Deddf - act (of law)
Cyfleoedd Cyfartal - equal opportunities

20 Deyrnas Unedig - United Kingdom

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cytundeb - contract
 Lingua franca - native tongue
 Llwyth - tribe
 Tafodiaith - dialect
 Cyfarch - to greet
 Cyfathrebu - to communicate
 Meddalwedd - software
 Blaenoriaeth - preference
 Llyfr ymadroddion - phrase book
 Ymgymhori - to conslt
 Archwiliadau - inspections
 Llawlyfr - handbook
 Etifeddiaeth - inheritance
 Llysgennad - ambassador

Gwyl Fair y Canhwyllau

Yn deillio =- to originate
 Greiddyn - root
 Hir disgwyledig - long - awaited
 Puredigaeth - purification
 Coelcerth - bonfire
 Rhialtwch - merrymaking
 Hynafiaid - ancestors
 Hadu - to seed
 Heulsaf - solstice
 Ffau - lair
 Cnofil - rodent
 Brodorol - native

Cromwell

Rhyfel cartref - civil war
 Ymlyniad - loyalty
 Gostegu - to subdue
 Arwr brodorol - local hero
 Disgynnydd - descendant
 Etifeddiaeth - inheritance
 Coeden achau - family tree
 Cyfarch - to greet
 Anadnabyddus - unknown
 Aflonyddu - to disurb
 Heredrol - heraldic
 Calonogi - to encourage
 Diwygiedig - reformed
 Gormes - oppression
 Rhagflaenwyr - predecessor
 Anghydfurfwyr - non-conformists

Ystrad Fflur

Pen pellaf - the far end
 Oes Efydd - bronze age
 Oes Haearn - iron age
 Ffynon sanctaidd - holy well
 Anheddiad - settlement
 Crefyddol - religious
 Disodli - to replace
 Hendy-gwyn ar Daf - Whitland
 Ar ei hanterth - at its prime
 Uniaethu - to identify with
 Diddymu - to abolish

Have you checked if
Cymdeithas Edward Llwyd
 are in your area this month? If we are you
 will have a warm welcome and a chance to
 practice our Welsh.
 Take a look at the programme!